Cadeirydd yr Undeb

Mae Cadeirydd yr Undeb yn gyfrifol am gynnal Cyngor yr Undeb. Gan weithio gyda swyddogion eraill, mae'n mynd ati i hyrwyddo cyfarfodydd y Cyngor ac yn sicrhau bod trafodaethau'n deg, yn agored a bod pob penderfyniad a wneir yn dryloyw ac yn ddemocrataidd.

Bydd cyfrifoldebau Cadeirydd(ion) yr Undeb fel a ganlyn:

1. Gweithio gyda'r Llywydd a staff perthnasol i drefnu Cyfarfodydd y Senedd a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, gan sicrhau bod y Cyfarfodydd wedi'u hysbysebu a'u trefnu'n dda (fel y nodir yn Atodlen 1.1).
2. Cadeirio Cyfarfodydd y Senedd a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol yn effeithiol a meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion Cyfansoddiad UMAber. Ymgynghori â staff a swyddogion perthnasol i sicrhau bod Cyfansoddiad UMAber yn cael ei ddehongli ag ymagwedd bwrpasol
3. Sicrhau bod aelodau UMAber yn deall gweithdrefnau Cyfarfodydd y Senedd a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol.
4. Sicrhau bod rheolau a safonau ymddygiad UMAber yn cael eu cynnal yng Nghyfarfodydd y Senedd a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, yn enwedig o ran polisïau craidd UMAber.

Cyfrifoldebau'r holl Swyddogion Gwirfoddol

1. Mynychu holl gyfarfodydd priodol Undeb Aber a'r Brifysgol gan gynnwys Cyfarfodydd y Senedd a Pharthau.
2. Ymddwyn mewn modd proffesiynol ac addas bob amser.
3. Sicrhau bod yr holl benderfyniadau a gweithredu'n cydymffurfio â chyfansoddiad UMAber a pholisïau cyfredol Undeb Aber.
4. Bod yn barod i adrodd ar gynnydd yr hyn sydd yn eu cylch gorchwyl.
5. Cyfarfod â chydlynu'n rheolaidd â Swyddogion Ymddiriedolwyr ac aelodau staff.

Ni fwriedir i Bortffolios y Swyddogion Gwirfoddol (y cyfeirir atynt hefyd fel Swyddogion "Rhanamser") fod yn rhestrau holl-gynhwysfawr o'r gweithdrefnau a thasgau a ddaw i ran y swyddog(ion) hynny. Serch hynny, mae'n cynnwys prif ddisgwyliadau UMAber o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd.

Am ragor o wybodaeth: Cyfansoddiad